

Rhif: WG35864



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Rheoliadau Gwasanaethau Maethu

Rhoi fframwaith rheoleiddio newydd ar waith

Rhagfyr 2018

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Golwg Gyffredinol

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru i'n hymgyngoriad:

WG34313 – Cam 3 gweithredu'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), 2016 – Gwasanaethau Maethu.

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar 24 Mai 2018 a chaewyd ef ar 16 Awst 2018. Derbyniwyd 27 o ymatebion gan ystod o randdeiliaid a phartïon â diddordeb.

Camau i'w cymryd

Er gwybodaeth yn unig.

Gwybodaeth bellach

Dylai ymholiadau ynghylch y ddogfen hon gael eu cyfeirio at:

Y Gangen Gweithredu Deddfwriaeth
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: RISCAct2016@gov.wales

Copïau ychwanegol

Gellir cael mynediad at y ddogfen hon drwy wefan Llywodraeth Cymru:
<https://beta.llyw.cymru/rheoliadau-gwasanaethau-maethu>

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Cynnwys	Tudalen
Adran 1	
1.1 Cyflwyniad	4
1.2 Y Cyd-destun ar gyfer newid	5 - 6
1.3 Yr ymgynghoriad hwn	7
1.4 Digwyddiadau ymgynghori	8
1.5 Y camau nesaf	8
Adran 2	
2.1 Crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd ac ymateb Llywodraeth Cymru	9 - 33
2.2 Cwestiynau ychwanegol	34 - 36
Atodiadau	
Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr	37

Adran 1

1.1 Cyflwyniad

Dros y pedair blynedd diwethaf gwelwyd creu fframwaith cyfreithiol newydd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, gyda dau ddarn pwysig o ddeddfwriaeth yn cael eu pasio. Y nod cyffredinol fu diwygio ac atgyfnerthu cyfraith gofal cymdeithasol, er mwyn gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chefnogaeth a'r rhai sy'n gofalu amdanynt.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014¹ ('Deddf 2014'), a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2016, yn sefydlu fframwaith newydd sy'n dwyn ynghyd ac yn moderneiddio'r gyfraith yng nghyswllt y rhan fwyaf o wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yng Nghymru.

Derbyniodd Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016² ('Deddf 2016') Gydsyniad Brenhinol ar 18 Ionawr 2016. Mae'n pennu'r fframwaith newydd ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol ac yn diwygio rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Felly mae'n disodli'r systemau perthnasol a osodwyd yn eu lle'n flaenorol gan y Ddeddf Safonau Gofal 2000³.

Mae'r ddwy Ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru i osod sawl eitem o is-ddeddfwriaeth yn eu lle drwy greu rheoliadau, ynghyd â chyhoeddi canllawiau statudol a chyhoeddi codau ymarfer.

Rhoddir Deddf 2016 ar waith mewn tri cham sy'n gorgyffwrdd:

- **Cam 1 (2016/17)** - a oedd yn cynnwys rheoliadau yn ymwneud â'r system newydd o reoleiddio'r gweithlu sy'n ofynnol dan y Ddeddf. Daeth y rhain i rym ar 3 Ebrill 2017. Ochr yn ochr â'r rhain, datblygodd Gofal Cymdeithasol Cymru'r rheolau a'r gweithdrefnau sy'n llywodraethu'r broses o gofrestru a rheoleiddio'r gweithlu.
- **Cam 2 (2017/18)** – gwelwyd sefydlu systemau newydd ar gyfer cofrestru gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio, a'u gweithredu gan Arolygiaeth Gofal Cymru o fis Ebrill 2018. Yr oedd y cam hwn hefyd yn cynnwys rheoliadau a chanllawiau statudol yn ymwneud â'r gofynion a'r safonau a ddisgwylir gan ddarparwyr gwasanaeth ac unigolion cyfrifol mewn cartrefi gofal (gan gynnwys cartrefi plant), llety diogel ar gyfer plant, canolfannau preswyl i deuluoedd a gwasanaethau cymorth cartref. Daeth y rhain i rym ar 2 Ebrill 2018.

Gellir cael mynediad at ddolenni holl reoliadau a chanllawiau statudol cam 1 a cham 2 drwy Hyb Gwybodaeth a Dysgu Gofal Cymdeithasol Cymru⁴:

- **Cam 3 (2018/19)** yw'r cam cyfredol ac mae'n cynnwys datblygu rheoliadau a chanllawiau statudol yn ymwneud â'r gofynion a'r safonau a ddisgwylir gan ddarparwyr gwasanaeth ac unigolion cyfrifol gwasanaethau mabwysiadu, gwasanaethau maethu, gwasanaethau lleoli oedolion a gwasanaethau eiriol. Bwriedir i'r rhain ddod i rym ym mis Ebrill 2019.

¹ http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_en.pdf

² http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/2/pdfs/anaw_20160002_en.pdf

³ http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/14/pdfs/ukpga_20000014_en.pdf

⁴ <https://socialcare.wales/hub/riscact-regulations>

1.2 Y cyd-destun ar gyfer newid

Rheoleiddio gwasanaethau dan Ddeddf Safonau Gofal 2000

Mae llawer wedi ei gyflawni gan y rheoleiddwyr (Arolygiaeth Gofal Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru⁵), a'r sector gofal cymdeithasol yn ehangach, wrth ddilyn yr uchelgais a nodir yn Neddf Safonau Gofal 2000. Yr oedd y fframwaith hwn yn darparu gwaelodlin o safonau, ar gyfer gwasanaethau gofal a chefnogi ac ar gyfer y gweithlu a oedd yn eu darparu, a heb amheuaeth y mae wedi gwella gwarchod y cyhoedd. Mae hefyd wedi darparu llawer mwy o gysondeb, amddiffyniad rhag cael eu hecsbloetio a'u cam-drin, a rhoi mwy o sylw i arferion is-safonol. Gyda'n gilydd, rydym wedi llwyddo i gynyddu perfformiad ac yn parhau i ddefnyddio rheoleiddio ac arolygu i gael gwared â safonau gwael.

Fodd bynnag, ers hynny rydym yn cydnabod fod llawer o bethau wedi newid yn y sector ac o'i gwmpas, ac rydym wedi canfod yr angen i osgoi i'n trefniadau rheoleiddio ddyddio a'r angen i gefnogi darparu gwasanaethau cynaliadwy.

Mae ein diwygio ar y system reoleiddio, a yrrir yn bennaf drwy Ddeddf 2016, wedi'i seilio ar bum egwyddor allweddol:

- bod yn ymatebol i'r diwygiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014⁶ ('Deddf 2014')
- sicrhau bod dinasyddion wrth galon gofal a chefnogaeth
- datblygu dull gweithredu Cymreig cyson a chydlynol
- mynd i'r afael â methiannau darparwyr
- bod yn ymatebol i fodolau newydd o wasanaeth ac unrhyw bryderon a ddaw i'r amlwg ynghylch ansawdd gwasanaethau gofal a chefnogi.

Rheoleiddio gwasanaethau maethu

Y rheoliadau cyfredol sy'n cwmpasu gwasanaethau maethu yng Nghymru yw Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003⁷ ('Rheoliadau 2003'), fel y'u diwygiwyd. Gwnaed y rhain dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Plant 1989⁸, ac maent yn gosod gofynion ar wasanaethau maethu awdurdodau lleol ac asiantaethau maethu annibynnol yn ymwneud â rheoli a chynnal gwasanaethau maethu a chymeradwyo rhieni maeth (gan gynnwys panelau maethu, asesiadau, cymeradwyo, adolygiadau a therfyniadau). Maent hefyd yn cynnwys rheoliadau ar leoli plant gan sefydliadau gwirfoddol.

Cafodd Rhan V Rheoliadau 2003, yn ymwneud â lleoli plant mewn lleoliadau maethu gan awdurdodau lleol, ei disodli gan y Rheoliadau Gofal, Cynllunio, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015⁹, a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2016.

⁵ Yr oedd Arolygiaeth Gofal Cymru (hyd Ionawr 2018) yn Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Roedd Gofal Cymdeithasol Cymru (hyd Ebrill 2016) yn Gyngor Gofal Cymru.

⁶ http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_en.pdf

⁷ http://www.legislation.gov.uk/wsi/2003/237/pdfs/wsi_20030237_mi.pdf

⁸ <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1989/41/contents>

⁹ http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1818/pdfs/wsi_20151818_mi.pdf

Wrth ddiwygio rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau a reoleiddir, fel sy'n ofynnol er mwyn gweithredu Deddf 2016, mae'n fwriad gennym ddisodli'r rhannau sydd ar ôl o Reoliadau 2003, o Ebrill 2019, gan ddefnyddio pwerau yn Neddf 2016. Bydd darpariaethau Rheoliadau 2003 sy'n ymwneud â gwasanaethau maethu nad ydynt yn cael eu rheoleiddio a ddarperir gan awdurdodau lleol hefyd yn cael eu disodli gan ddefnyddio pwerau dan Ddeddf 2014.

Mae'r diwygio hwn ar gyfraith gofal cymdeithasol yn cael ei gefnogi gan gynlluniau polisi ehangach, gan gynnwys rhaglen 'Gwella Canlyniadau ar gyfer Plant' Llywodraeth Cymru. Caiff y rhaglen hon ei goruchwyllo gan Grŵp Cyngori Gweinidogol o randdeiliaid allweddol o lywodraeth leol, academia a'r trydydd sector, ac mae'n canolbwyntio ar wella canlyniadau ar gyfer plant ar gyrion gofal, plant sy'n derbyn gofal a rhai sy'n gadael gofal. Mae wedi cynnwys datblygu Fframwaith Maethu Cenedlaethol ar gyfer Cymru, sy'n cael ei roi ar waith dros dair blynedd o 2017/18.

1.3 Yr ymgynghoriad hwn

Yr oedd yr ymgynghoriad hwn, a gynhaliwyd o 24 Mai i 16 Awst 2018, yn ceisio barn ar y canlynol:

Y Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Darparwyr Gwasanaeth ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019 drafft, ('y Rheoliadau drafft'), a oedd, yn gryno, yn bwriadu:

- gosod gofynion newydd ar ddarparwyr gwasanaethau maethu annibynnol (IFA) ac unigolion cyfrifol, dan adrannau 27 a 28 Deddf 2016
- gosod gofynion tebyg, lle bo'n berthnasol, ar wasanaethau maethu awdurdodau lleol, dan adran 94A Deddf 2014
- disodli Rhan IV Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003 ar gymeradwyo rhieni maeth gan wasanaethau maethu annibynnol ac awdurdodau lleol
- diddymu gweddill y darpariaethau yn Rhannau V a VI Rheoliadau 2003, ar leoli gan sefydliadau gwirfoddol.

Yr oedd hefyd yn gwahodd barn ar y canlynol:

- canllawiau statudol drafft ar gyfer darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol ac unigolion cyfrifol ar gyflawni safonau gwasanaeth, dan adran 29 Deddf 2016
- cod ymarfer drafft ar gyfer gwasanaethau maethu awdurdodau lleol, dan adran 145 Deddf 2014.

Derbyniwyd 27 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Naratif yn unig oedd rhai o'r rhain ac felly nid ydynt yn ymddangos yn y crynodeb o ymatebion ticio blychau yn yr adroddiad hwn. Cafodd pob ymateb ei ystyried yn gyfartal yn nhermau'r sylwadau a dderbyniwyd. Mae rhestr o ymatebwyr ynghlwm yn Atodiad A.

Gellir gweld crynodeb o'r ymatebion, ynghyd â dadansoddiad a chasgliadau Llywodraeth Cymru yn Adran 2.

1.4 Digwyddiadau ymgynghori

Cynhaliwyd dau ddigwyddiad ymgynghori fel rhan o'r broses ymgynghori. Nod y digwyddiadau oedd annog rhanddeiliaid i ymateb a galluogi'r rhai a oedd yn bresennol i:

- gael golwg gyffredinol ar y ddeddfwriaeth ddrafft a'r newidiadau allweddol y bydd yn effeithio arnynt;
- gwirio'u dealltwriaeth o'r cynigion a cheisio esboniad, os byddai angen;
- ystyried y goblygiadau posibl ar gyfer eu rôl hwy a'u sefydliad

Cynhaliwyd y digwyddiad cyntaf ar 16 Gorffennaf ym Mhrifysgol Glyndŵr, Wrecsam a chynhaliwyd yr ail ddigwyddiad ar 19 Gorffennaf yng Ngerddi Sophia, Caerdydd.

Yn gyffredinol, roedd nifer y rhai a fynychodd y digwyddiadau – a oedd yn cwmpasu ymgynghori ar leoliadau oedolion, eiriolaeth a gwasanaethau maethu – yn gadarnhaol, gydag oddeutu 90 yn bresennol yng Nghaerdydd a chyfanswm o 40 o gynrychiolwyr yn Wrecsam. Cafodd ystod o sefydliadau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector eu cynrychioli, gan gynnwys nifer o ddarparwyr gwasanaeth.

1.5 Y camau nesaf

Yn dilyn cyngor gweithdrefnol gan Wasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru, mae Gweinidogion Cymru wedi cytuno y bydd y Rheoliadau drafft fel yr ymgynghorwyd arnynt yn cael eu cyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Rhagfyr 2018 mewn tri offeryn statudol ar wahân:

- Rheoliadau Gwasanaethau Maethu a Reoleiddir (Darparwyr Gwasanaeth ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019
- Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2018
- Rheoliadau Panelau Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018.

Bydd y rheoliadau sy'n gosod gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau maethu annibynnol (sy'n 'wasanaethau a reoleiddir' dan Ddeddf 2016) yn amodol ar y weithdrefn gadarnhaol. Os byddant yn cael eu pasio gan Gynulliad Cymru ym mis Ionawr 2019 byddant yn dod i rym ym mis Ebrill 2019. Caiff y rheoliadau yn gosod gofynion ar wasanaethau maethu awdurdodau lleol, a'r rhai yn ymwneud â sefydlu swyddogaethau paneli maethu eu creu gan ddefnyddio'r pwerau yn Neddf 2014, a byddant yn amodol ar y weithdrefn negyddol. Mae'r rhain hefyd i ddod i rym ym mis Ebrill 2019.

Rydym yn bwriadu i'r cod ymarfer yng nghyswllt gwasanaethau maethu awdurdodau lleol, a gaiff ei gyhoeddi dan Ddeddf 2014, gael ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Rhagfyr 2018. Nid oes angen unrhyw weithdrefn yng nghyswllt y canllawiau statudol ar gyfer darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol a'u hunigolion cyfrifol. Bydd y cod ymarfer a'r canllawiau statudol yn dod i rym ar yr un adeg â'r rheoliadau, yn Ebrill 2019.

Adran 2

2.1 Crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd ac ymateb Llywodraeth Cymru

Noder: Oherwydd talgrynnu, efallai na fydd rhai canrannau'n cyfateb i 100% yn gyffredinol.

RHANNAU 2 - 4: Gofynion ar gyfer Darparwyr Gwasanaethau Maethu Annibynnol

Cwestiwn 1: A yw'r gofynion yn y rhannau hyn o'r Rheoliadau Drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei nodi
1	15	3	1	7
4%	56%	11%	4%	26%

Crynodeb o'r ymatebion

Mynegodd sawl ymatebydd bryder ynghylch y gofynion hysbysu mewn perthynas â newidiadau i ddatganiad o bwrpas darparwr. Awgrymwyd mai dim ond newidiadau sylweddol oedd angen rhoi gwybod amdanynt, yn hytrach na phob newid. Yr oedd rhai'n cwestiynu a oedd yn briodol rhoi gwybod i bob plentyn wedi'u maethu am newidiadau, o ystyried nad oedd y gwasanaeth maethu yn darparu gofal a chefnogaeth yn uniongyrchol iddynt hwy, a hefyd achos bod plant mewn lleoliadau eisiau cael eu trin mor 'normal' â phosibl. Roedd ymholiadau hefyd a fyddai yna drafferthion ymarferol gyda chysylltu â rhieni genedigol, na fyddai darparwyr annibynnol, o angenrheidrwydd yn gwybod eu cyfeiriadau.

Mynegwyd pryder am y cyfeiriadau at blant wedi'u lleoli gan ddarparwr annibynnol, yn enwedig yng nghyswllt y gofyniad i sicrhau addasrwydd y gwasanaeth (rheoliad 5). Nodwyd bod awdurdodau lleol yn gyfrifol dan gyfraith am leoli plentyn sy'n derbyn gofal. Yr oedd y dewisiadau amgen a awgrymwyd yn cynnwys 'wedi'u gosod gyda' neu 'yn cael llety gan'.

Gwnaed awgrymiadau amrywiol am y gofynion ynghylch addasrwydd y gwasanaeth. Awgrymwyd y dylid ymgynghori â phlant eraill mewn lleoliad (neu eu gweithiwr cymdeithasol) ynghylch plentyn arall yn cael ei roi yn y cartref, a gwnaed awgrymiadau ar gyfer cryfhau'r canllawiau i bwysleisio'r angen am roi gwybod yn gynnar am y posibilrwydd o leoliad yn methu a hefyd ar leihau i'r eithaf y trallod i blant pan fo cynnig i ddirwyn lleoliad i ben.

Gwnaeth nifer o ymatebwyr sylw am Atodlen 1 (hysbysiadau). Yr oedd awgrym y dylai'r gofyniad i Weinidogion Cymru a'r awdurdod lleol gael eu hysbysu am unrhyw ddigwyddiad difrifol lle y gelwir yr heddlu i gartref y rheini maeth (Atodlen 1, Rhan 1 paragraff 7 a Rhan 2 paragraff 7) hefyd gwmpasu digwyddiadau difrifol yn cynnwys aelodau eraill o'r cartref.

Awgrymwyd y dylai'r term 'dianc' yn Atodiad 1 gael ei ddisodli gan gyfeiriad at blentyn yn mynd ar goll neu'n absennol heb awdurdod; y dylai cyfeiriadau at ecsbloetio plant yn rhywiol gydol yr Atodlen hefyd gwmpasu mathau eraill o ecsbloetio megis masnachu pobl ac ecsbloetio cysylltiedig â gangiau; y dylai cyfeiriadau at buteindra gael eu disodli (gan fod hyn yn ffurf ar ecsbloetio plant yn rhywiol); ac y dylai awdurdod yr ardal gael ei hysbysu os bydd achosion o glefydau heintus.

Holodd sawl ymatebydd pam nad oedd y ddyletswydd didwyllledd yn berthnasol ond i ddarparwyr gwasanaethau maethu annibynnol (IFA) ac nid i awdurdodau lleol. Roedd eraill yn cwestiynu'r gwerth ychwanegol o osod y ddyletswydd hon ar ddarparwyr gwasanaeth, gan deimlo ei fod yn derm rhy gyffredinol neu ei fod eisoes wedi'i gwmpasu gan y Cod Ymddygiad Proffesiynol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym wedi penderfynu yn erbyn newid y gofyniad ar ddarparwyr gwasanaeth i hysbysu'r unigolion penodedig am newidiadau i'r datganiad o bwrpas. Mae'r datganiadau hyn yn cynnwys gwybodaeth bwysig lefel-uchel am y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu, ac oherwydd hynny, bydd pob newid yn arwyddocaol a gallai o bosibl effeithio ar fywydau'r rhai sy'n cael budd o'r gwasanaeth. Rydym yn gwerthfawrogi fod hyn yn rhoi cyfrifoldeb awdurdod i drosglwyddo manylion y rhieni genedigol i'r darparwr. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl i ddarparwyr gysylltu â'r awdurdod lleol perthnasol os nad yw'r rhain wedi'u darparu, ac ni fyddai darparwyr yn cael eu dal yn gyfrifol os byddai'r awdurdod lleol hwnnw'n methu â throsglwyddo'r manylion angenrheidiol o dderbyn cais rhesymol i wneud hynny.

Er ein bod yn cytuno bod yr awdurdod lleol sy'n gofalu am blentyn yn gyfrifol am leoli plentyn gyda rhieni maeth yr awdurdod lleol, er hynny mae'r darparwr maethu annibynnol yn lleoli'r plentyn gyda rhieni maeth y mae wedi eu cymeradwyo ar ran yr awdurdod lleol. I egluro hyn, pan ymddengys y term hwn gyntaf yn y rheoliadau sy'n ymwneud â gwasanaethau a reoleiddir, ar ôl y geiriau 'lleoli gyda', rydym wedi ychwanegu 'rhieni maeth'. Mae'r gofynion ar awdurdodau lleoli wedi'u marcio'n glir yn y rheoliadau a'r canllawiau perthnasol, ac mae dyletswyddau awdurdod lleol o ran lleoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal wedi eu nodi'n glir yn Neddf 2014, yn Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoliadau ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015 a Chod Ymarfer Rhan 6.

Lle bo'n briodol, byddwn yn cryfhau'r canllawiau i wneud yn glir fod yn rhaid i ddarparwyr ystyried yr effaith ar y cartref yn ehangach wrth bennu addasrwydd unrhyw drefniadau maethu arfaethedig (gan gynnwys barn plant eraill). Byddwn hefyd yn tynnu sylw yn y canllawiau at yr angen i roi gwybod yn gynnar am fethiant posibl, a'r gofyniad i ddarparwyr gwasanaeth fod â phrosesau yn eu lle i leihau effeithiau lleoliad yn dod i ben.

Byddwn yn ehangu'r cyfeiriadau at ecsbloetio rhywiol ar blant yn yr Atodlen i gyfeirio at 'ac ecsbloetio troseddol ar blant' ; byddwn hefyd yn cyfeirio at blant yn 'absennol heb ganiatâd yn hytrach nac yn 'dianc', sydd fel arfer yn gysylltiedig â chyfiawnder yr ifanc. Rydym wedi penderfynu yn erbyn mynnu gwneud hysbysiadau am ddigwyddiadau difrifol yn cynnwys aelodau eraill o'r cartref ar y sail y gallai hyn effeithio'n ormodol ar hawl unigolyn i breifatrwydd. Os bydd unrhyw ddigwyddiad yn codi pryderon am ddiogelu mewn unrhyw fodd, neu'n golygu na fydd anghenion plentyn yn cael eu diwallu bellach, yna mae mecanweithiau eisoes yn eu lle i dynnu sylw'r awdurdod lleoli, ac i gamau gael eu cymryd.

Mae Gweinidogion wedi penderfynu y dylai'r ddyletswydd didwylledd fod yn berthnasol yn yr un modd i awdurdodau lleol a gwasanaethau maethu annibynnol. Mae'r ddyletswydd i fod yn agored a thryloyw wrth ymdrin â phlant, rhieni, rhieni maeth ac awdurdodau lleoli / ardal yn ofyniad cyffredin ar draws yr holl wasanaethau a reoleiddir dan Ddeddf 2016, ac rydym yn ystyried y dylai fod yr un mor berthnasol i wasanaethau maethu awdurdodau lleol.

Byddwn hefyd yn diwygio'r rheoliadau i wneud darpariaeth bod yn rhaid i reolwyr gwasanaethau maethu a reoleiddir a gwasanaethau maethu awdurdodau lleol fod wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ddim ond ar ôl 1 Ebrill 2022, er mwyn sicrhau bod gan y gweithlu ddigon o amser i ennill y cymwysterau gofynnol.

RHAN 5: Gofynion Cyffredinol ar gyfer Darparwyr Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol

Cwestiwn 2: A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau maethu awdurdodau lleol?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei nodi
8	11	3	1	4
30%	41%	11%	4%	15%

Crynodeb o'r ymatebion

Yr oedd dau brif faes yn achosi pryder ynghylch y gofynion yn ymwneud â gwasanaethau maethu awdurdodau lleol. Y cyntaf oedd sut yr oedd y gofynion hyn yn cefnogi neu'n torri ar draws datblygiad dulliau gweithredu rhanbarthol dan y Fframwaith Maethu Cenedlaethol newydd, gan fod y Rheoliadau drafft yn gosod gofynion ar awdurdodau lleol unigol yn unig. Er enghraifft, maent yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol benodi un o'i swyddogion ei hun fel rheolwr gwasanaethau maethu. Yr oedd pryder hefyd bod y cyfeiriad yn y canllawiau at y gofyniad i'r rheolwr maethu fod â phrofiad o redeg gwasanaeth maethu yn rhy gyfyngol.

Yr oedd y maes arall a oedd yn achosi pryder yn adlewyrchu'r rhai a godwyd uchod ynghylch gwasanaethau maethu a reoleiddir o ran y datganiad o bwrrpas a hysbysu newidiadau i'r datganiad. Yr oedd y rhain yn ymwneud yn rhannol â'r math priodol a'r lefel o wybodaeth i'w rhannu gyda phlant a phobl ifanc, rhieni genedigol a rhieni maeth.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Pery'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol (FfMC) i Gymru yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, fel rhan o'n Rhaglen Gwella Canlyniadau ar gyfer Plant, ac mae gweithredu'r FfMC yn llwyddiannus yn golygu mwy o gydweithio a gweithio rhanbarthol rhwng awdurdodau lleol. Mae awdurdodau lleol unigol yn cadw'u cyfrifoldebau fel rhieni corfforaethol dros y plant y maent yn gofalu amdanynt ac yn eu lleoli dan Ddeddf 2014 a'r Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015, ac fel darparwyr gwasanaethau maethu dan y Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, ni ddylai dim yn y Rheoliadau hyn fod yn rhwystro gweithio rhanbarthol dan y FfMC. Byddwn, o'r herwydd, yn diwygio'r gofyniad i benodi rheolwr gwasanaethau maethu (rheoliad drafft 22) fel ei fod yn cyfeirio at 'swyddog' yn hytrach nac un o swyddogion yr awdurdod lleol ei hun, fel y gall dau neu fwy o awdurdodau lleol benodi'r un swyddog ar gyfer gwasanaeth rhanbarthol.

Yr oedd y Rheoliadau drafft yn ei gwneud yn ofynnol i'r unigolyn a benodir yn rheolwr gwasanaethau maethu feddu ar y cymwysterau, y sgiliau, y cymhwyster a'r profiad angenrheidiol ar gyfer y gwaith y mae i'w gyflawni, a bod yr unigolyn wedi'i gofrestru fel rheolwr gofal cymdeithasol gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Byddwn yn diwygio'r cod

ymarfer fel ei fod yn cyfeirio at reolwr gwasanaethau maethu yn meddu ar brofiad o reoli gwasanaeth gofal, yn hytrach na gwasanaeth gofal maeth yn benodol. Byddai hyn yn gyson â'r dull a gymerir o ran rheolwyr gwasanaethau a reoleiddir dan Ddeddf 2016 (gan gynnwys gwasanaethau maethu annibynnol).

Byddwn hefyd yn diwygio'r rheoliadau i wneud darpariaeth bod yn rhaid i reolwyr gwasanaethau maethu a reoleiddir a gwasanaethau maethu awdurdodau lleol fod wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ddim ond ar ôl 1 Ebrill 2022, er mwyn sicrhau bod y gweithlu yn cael digon o amser i ennill y cymwysterau angenrheidiol.

Erys y gofyniad i ddarparwyr hysbysu'r unigolion penodedig o newidiadau i'r datganiad o bwrpas (rheoliad drafft 20), ar y sail bod y datganiadau hyn yn cynnwys gwybodaeth bwysig, lefel uchel ynghylch y gwasanaeth a ddarperir, ac y gallai pob newid o bosibl effeithio ar fywydau'r rhai sy'n cael budd o'r gwasanaeth.

Gweler isod am sylwadau ynghylch Rhan 6 ar wybodaeth am bolisiau a gweithdrefnau a'r canllawiau i'r gwasanaeth.

RHAN 6: Gofynion Cyffredinol ar gyfer Darparwyr Gwasanaethau Maethu Annibynnol a Darparwyr Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol

Cwestiwn 3: A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei nodi
3	10	6	0	8
11%	37%	22%	0%	30%

Crynodeb o'r ymatebion

Gwnaed sawl awgrym ynghylch y canllawiau ysgrifenedig, er enghraifft cynnwys gwybodaeth am ymwelwyr annibynnol yn ogystal ag eiriolaeth, gan gynnwys gwybodaeth am y gefnogaeth sydd ar gael lle bo honiad wedi ei wneud yn erbyn rhiant maeth, a sicrhau bod plant yn derbyn adborth am eu barn. Yr oedd rhai ymatebwyr yn cwstiyntu a allai fod gormodedd o wybodaeth os byddai'n rhaid i blant dderbyn copi o'r datganiad o bwrpas, y canllawiau ysgrifenedig, a chopiau o bolisïau a gweithdrefnau.

O ran safonau gofal a chefnogaeth, awgrymwyd y dylid cyfeirio at baratoi ar gyfer bod yn oedolyn, gan ddwyn i mewn rhywfaint o'r deunydd sydd ar hyn o bryd yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol (safon 14).

Awgrymmodd rhai ymatebwyr y dylid ehangu'r canllawiau ar hyrwyddo cyswllt, er enghraifft i gynnwys rôl rhieni maeth o ran eiriol am ostyngiad mewn cyswllt lle bo plentyn eisiau hyn neu fod y rhiant maeth yn teimlo nad yw er budd gorau'r plentyn.

O ran cofnodion, awgrymwyd y dylai'r canllawiau gyfeirio at y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR). Yr oedd sylwadau hefyd ynghylch y cyfnod cadw o 15 mlynedd, gyda sawl ymatebydd yn awgrymu fod hyn yn gyfnod rhy fyr yn achos plentyn a oedd yn derbyn gofal.

Awgrymmodd Comisiynydd Plant Cymru y dylai Llywodraeth Cymru ystyried yn ddwys pwy sy'n cadw cofnodion dyddiol a gedwir gan rieni maeth, ac am ba gyfnod; a hefyd ynghylch hawl plant a phobl ifanc i gael mynediad at y rhain, gan ystyried y dylai darparwyr allu rhoi cofnod manwl o'u cyfnod mewn gofal i blant.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Y canllawiau ysgrifenedig i'r gwasanaeth (rheoliad drafft 27) yw'r ddogfen allweddol sy'n nodi'r hyn y mae plant mewn lleoliad maeth, eu rhieni maeth ac eraill angen ei wybod am y gwasanaeth maethu. Gallai'r canllaw ar gyfer plant gynnwys crynodeb o'r datganiad pwrpas sy'n addas ar gyfer plentyn, ac rydym wedi cynnwys gofyniad newydd am grynodeddau priodol o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol, fel bo'n briodol, i gael eu

cynnwys yn y canllawiau. Mae'n arfer da i ddarparwyr gwasanaeth allu bod yn rhagweithiol o ran ceisio barn plant a phobl ifanc ynghylch yr wybodaeth fwyaf priodol a'r fformat mwyaf priodol i'w gynnwys yn eu canllawiau.

Rydym wedi penderfynu peidio â chynnwys gofyniad i gynnwys gwybodaeth am ymwelwyr annibynnol, gan mai mater i'r awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn yw pennu a fyddent yn cael budd o ymwelwyr annibynnol dan Ddeddf 2014. Nid yw'n hawl yn yr un modd ag eiriolaeth. Rydym hefyd wedi penderfynu peidio â chynnwys cyfeiriad yma at gefnogaeth yn ystod honiadau, gan y credwn y byddai'n well cynnwys hyn yn y canllawiau / cod ymarfer statudol yn ymwneud â'r gofynion ynghylch cefnogaeth ar gyfer rhieni maeth (drafft Rhan 10). Mae rhoi adborth i blant a phobl ifanc pryd bynnag y gofynnir am eu barn eisoes wedi ei gynnwys yn y canllawiau ar ofynion yng nghyswllt monitro a gwelliant (rheoliadau drafft 7 a 21).

Rydym yn derbyn y dylai'r gofyniad ynghylch gofal a chefnogaeth hefyd gynnwys cyfeiriad at y cynllun llwybro a gaiff ei baratoi pan fo plentyn yn troi'n 16 oed, a bydd y canllawiau yn cael eu diwygio i gynnwys hyn ac i gryfhau'r wybodaeth ar ofynion yn ymwneud â gwneud paratodau priodol ar gyfer plant sy'n gadael gofal.

Rydym wedi penderfynu nad oes angen ehangu'r canllawiau ar hyrwyddo cyswllt, gan fod y rhain yn bennaf yn faterion ymarfer a dylai unrhyw bryderon sydd gan y plentyn neu'r rhieni maeth ynghylch trefniadau cyswllt gael eu nodi drwy'r broses adolygu Plant sy'n Derbyn Gofal (LAC).

Byddwn yn cynnwys cyfeiriad at y ddeddfwriaeth GDPR newydd yn y canllawiau ar gofnodion. Yr ydym, fodd bynnag, wedi penderfynu peidio â chynyddu isafswm y cyfnod cadw o 15 mlynedd ar gyfer darparwyr gwasanaeth, gan fod yn rhaid i'r holl gofnodion, yn y pen draw, gael eu dychwelyd at yr awdurdod lleoli, sydd â rhwymedigaeth i'w cadw am 75 mlynedd. Gall darparwyr annibynnol ystyried cadw cofnodion am gyfnod hwy os dymunant, ac rydym yn gwybod fod llawer ohonynt yn gwneud hynny. Y mae'r cofnodion sydd i'w cadw wedi'u nodi yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau, ond nid ydynt yn cynnwys cofnodion dyddiol a wneir gan rieni maeth. Byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach i statws y cofnodion hyn a hawl plentyn wedi'i faethu i gael eu gweld, gan geisio cyngor gan y Comisiynydd Gwybodaeth os bydd angen.

RHAN 7: Polisiâu, Gweithdrefnau a Safonau Eraill

Cwestiwn 4: A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei nodi
4	12	3	0	8
15%	44%	11%	0%	30%

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd sawl sylw ar y gofyniad (rheoliad drafft 35) i sicrhau bod polisiâu a gweithdrefnau ar gyfer gwasanaeth maethu ar gael i blant a phobl ifanc berthnasol mewn fformatau priodol. Yr oedd y rhain yn ymestyn o holi a oedd plant angen gwybod am yr holl weithdrefnau a restrwyd, sut yr oedd hyn yn berthnasol i'r gofyniad i gynhyrchu canllaw i'r gwasanaeth ar gyfer plant, a pha mor briodol oedd hi i gynnwys plant wrth ddatblygu rhai o'r gweithdrefnau hyn.

O ran polisiâu penodol, awgrymwyd y dylai'r rheoliad ynghylch bwlio a bod yn absennol heb ganiatâd (rheoliad drafft 38) gael eu gwahanu, gan eu bod yn ymdrin â materion gwahanol.

Nodwyd nad oedd y gofyniad i gofnodi unrhyw ddirgwyddiad o reoli neu atal (rheoliad drafft 39) yn cynnwys gofyniad i'r rhiant maeth drosglwyddo'r cofnod hwn i'r darparwr.

Roedd galwadau am ragor o fanylion yn y canllawiau yn ymwneud â'r Trefniadau Diogelu rhag Amddifadu o Ryddid a rôl gwasanaethau maethu (rheoliad drafft 40).

Cododd Comisiynydd Plant Cymru bryder penodol am gynnwys plant yn y rheoliad ar bolisi a gweithdrefnau chwythu'r chwiban (rheoliad drafft 42).

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn derbyn na fydd yr holl bolisiâu a'r gweithdrefnau y bydd darparwr gwasanaethau maethu angen eu sefydlu yn berthnasol nac yn briodol ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae hyn yn benodol berthnasol i'r polisiâu a'r gweithdrefnau ar chwythu'r chwiban, cefnogi a datblygu staff (rheoliad drafft 56), a disgyblaeth staff (rheoliad drafft 58). Byddwn yn cael gwared â'r gofyniad fod yn rhaid i ddarparwyr sicrhau bod cynnwys pob polisi mewn fformat priodol ar gyfer plant o bob oed, ac yn lle hynny byddwn yn mynnu bod darparwyr gwasanaeth yn cynnwys gwybodaeth yn fersiwn plant a phobl ifanc o'r canllawiau, mewn fformatau priodol, am y polisiâu a'r gweithdrefnau sy'n berthnasol i anghenion plant. Credwn ei bod yn gwbl briodol i blant a phobl ifanc gael eu cynnwys wrth ddatblygu polisiâu a gweithdrefnau sy'n effeithio arnynt hwy ac ar eu lleoliad.

Byddwn yn rhannu'r rheoliad sy'n ymdrin â pholisïau a gweithdrefnau ar fwlio a bod yn absennol heb ganiatâd, fel y gellir ymdrin â hwy ar wahân.

Mae'n ofynnol i ddarparwyr gofnodi unrhyw ddigwyddiad o reoli neu atal a ddefnyddiwyd gan rieni maeth. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr sefydlu gweithdrefn fel y gall rhieni maeth roi gwybod iddynt am unrhyw ddigwyddiad pryd y defnyddir rheolaeth neu atal, cyn pen 24 awr iddo ddiwydd. Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn comisiynu canllawiau ar ddefnyddio arferion rhwystrol ar draws lleoliadau gofal cymdeithasol, iechyd ac addysg, a fydd yn helpu rhieni maeth i ddatblygu eu polisïau a'u gweithdrefnau.

Rydym wedi nodi'r galwadau am ganllawiau pellach ynghylch y Trefniadau Diogelu rhag Amddifadu o Ryddid (DOLS), a byddwn yn ystyried pa waith pellach allai fod yn angenrheidiol yn y maes hwn. Ar hyn o bryd nid yw DOLS yn berthnasol i blant, ond mae'r sefyllfa o ran pobl ifanc 16-17 oed yn cael ei hadolygu gan Lywodraeth y DU ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd, caiff rhiant plentyn nad yw'n gymwys roi awdurdod. Gallai pobl ifanc 16 a 17oed heb alluedd fod yn ddarostyngedig i geisiadau i'r Llys Gwarchod ac i'r Uchel Lys wrth weithredu awdurdodaeth gynhenid yr Uchel Lys.

Rydym yn derbyn pryder Comisiynydd Plant Cymru ei bod yn amhriodol dod â phlant a phobl ifanc i mewn i gwmpas y polisi chwythu'r chwiban, sydd wedi ei ddiwygio i fod yn berthnasol i gyflogeion a gwirfoddolwyr yn unig. Nid yw bellach yn berthnasol i rieni maeth chwaith. Rhaid bod gweithdrefnau penodol ar gyfer plant neu rieni maeth sy'n dymuno mynegi pryderon dan y polisi cwynion.

RHAN 8: Iechyd ac Addysg

Cwestiwn 5: A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei nodi
7	9	3	0	8
26%	33%	11%	0%	30%

Crynodeb o'r ymatebion

Gwnaed sawl awgrym ar gyfer cryfhau'r rheoliadau ynghylch hyrwyddo iechyd ac addysg plant a phobl ifanc mewn lleoliadau maethu (rheoliadau drafft 44 a 45). Yr oedd y rhain yn cynnwys gwneud cyfeiriad penodol at iechyd a datblygiad meddyliol ac emosiynol, gan gynnwys optegwyr yn y rhestr o wasanaethau y mae'n rhaid darparu mynediad atynt i blentyn, ac yn cynnwys cyfeiriad penodol at yr hawl i chwarae dan Gonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Yr oedd awgrym hefyd y dylai'r rheoliad neu'r canllaw ynghylch addysg a chyflogaeth gynnwys rhai o'r meini prawf sydd yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol cyfredol o ran paratoi ar gyfer bod yn oedolyn a byw'n annibynnol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn derbyn y dylai'r rheoliad sy'n cyfeirio at iechyd a datblygiad plentyn gael ei gryfhau i gynnwys cyfeiriad penodol at iechyd a datblygiad corfforol, meddyliol ac emosiynol.

Byddwn yn cynnwys gofyniad i ddarparu mynediad at optegydd i bob plentyn.

Byddwn hefyd yn ehangu'r rheoliad ar hyrwyddo diddordebau hamdden plentyn, fel ei fod yn cynnwys eu cefnogi i gymryd rhan mewn chwarae a gweithgareddau hamdden sy'n briodol i'w hoedran ac i gymryd rhan mewn bywyd diwylliannol ac yn y celfyddydau. Bydd hyn yn benodol yn adlewyrchu Erthygl 31 Confensiwn y Cenedloedd ar Hawliau'r Plentyn sef yr hawl i chwarae, yn unol â rhwymedigaeth Llywodraeth Cymru i ystyried hawliau'r Confensiwn wrth ddatblygu polisiau a deddfwriaeth.

Byddwn yn ystyried pa ddeunydd o safon 14 y Safonau Gofynnol Cenedlaethol cyfredol fyddai'n briodol ei gynnwys yn y canllawiau, a sut y byddai hyn yn ffitio orau gyda'r gofynion ynghylch cefnogi unigolyn ifanc gydag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

RHAN 9: Safleoedd, Cyfleusterau ac Offer

Cwestiwn 6: A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei nodi
10	5	3	0	9
37%	19%	11%	0%	33%

Crynodeb o'r ymatebion

Ychydig o ymatebion a gafwyd yng nghyswllt y Rhan hon. Roedd un neu ddau o alwadau am eglurder ynghylch pwy ddylai fod yn gyfrifol am weithgareddau ychwanegol neu offer arbenigol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym wedi penderfynu peidio â bod yn fwy cyfarwyddol ynghylch offer a gweithgareddau, gan y dylai'r math yma o fanylion gael eu nodi'n glir yng nghynllun gofal a chefnogi plentyn a'r cytundeb gofal maeth sy'n llywodraethu'r lleoliad.

RHAN 10: Cymorth i Rieni Maeth

Cwestiwn 7: A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei nodi
2	13	2	0	10
7%	48%	7%	0%	37%

Crynodeb o'r ymatebion

Mynegodd sawl ymatebydd bryder bod y gofynion ynghylch goruchwyllo rhieni maeth yn y Rhan hon ddim yn ddigon manwl, ac nad oedd canllawiau yng nghyswllt hyn yn adlewyrchu'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol cyfredol yn ddigonol.

Cyfeiriodd nifer o ymatebion at yr angen i ymdrin â mater cynilion plant yn y rheoliadau ar gefnogi plant i reoli eu harian. Gwnaed cyfeiriad at ddyfarniad diweddar gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar hyn. Roedd hyn yn cynnwys beth oedd yn digwydd i gynilion plentyn neu unigolyn ifanc pan oedd y lleoliad yn dod i ben.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Pwrpas y rheoliad ar oruchwyllo rhieni maeth (rheoliad drafft 50) yw sicrhau bod goruchwyliaeth yn digwydd. Dylai manylion y trefniant gael eu dangos i bob darparwr gwasanaeth. Fe fyddwn, fodd bynnag, yn ystyried a oes angen unrhyw fanylion pellach yn y canllawiau / cod ymarfer ar hyn.

Rhoddodd Llywodraeth Cymru ymrwymiad, mewn ymateb i adroddiad yr Ombwdsmon, i ystyried beth ellid ei wneud i gryfhau'r canllawiau statudol ynghylch cynilion ar gyfer pobl ifanc mewn gofal. Wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, a'r cwmpas a ddarperir gan y rheoliadau a'r canllawiau / cod yng nghyswllt gwasanaethau maethu, rydym wedi penderfynu ychwanegu dau ofyniad newydd at y rheoliad ar gefnogi plant i reoli eu harian (rheoliad drafft 52). Y rhain yw: gofyniad i bolisi a gweithdrefnau darparwr gwasanaeth sicrhau fod goruchwyllo a monitro digonol yn digwydd gan yr awdurdod lleoli o ran cynilion a wneir gan rieni maeth ar ran plant, a bod rhieni maeth yn trosglwyddo pob cofnod o gynilion o'r fath (gan gynnwys gwariant o gynilion) i'r awdurdod lleol sy'n lleoli pan fydd lleoliad plentyn y mae'r cofnodion yn ymwneud ag ef, yn dod i ben.

Cwestiwn 8: A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei nodi
4	8	2	0	13
15%	30%	7%	0%	48%

Crynodeb o'r ymatebion

Yr oedd cytundeb cyffredinol gyda'r darpariaethau yn y Rhan hon, er bod un rhanbarth awdurdod lleol yn holi a fyddai'r cyfyngiadau ar gyflogaeth yn effeithio ar allu rhieni maeth i ymgymryd â rolau cefnogi fel y rôl flaengar a ddatblygwyd yn Rhondda Cynon Taf dan y cynllun peilot Llesiant Maethu.

Mynegwyd pryder am yr effaith bosibl y cyfyngiadau ar gyflogaeth ar aelodau'r teulu – er enghraifft, lle yr oedd aelod o'r teulu'n gofalu am blentyn ar sail wirfoddol am dros bum awr yr wythnos, neu lle yr oedd plentyn sy'n oedolyn ac o deulu sy'n maethu, yn gyflogedig gan yr awdurdod lleol fel gweithiwr cefnogi yn y gwasanaethau cymdeithasol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Ni ddylai'r darpariaethau ynghylch cyfyngiadau ar gyflogaeth effeithio ar rieni maeth sy'n ymgymryd â gwaith gwirfoddol fel lladmeryddion maethu, arloeswyr ayb., gan nad yw'r rhain yn rolau y mae unigolyn yn cael ei gyflogi i'w cyflawni. Mae'r rheoliad yn gweithredu er mwyn atal darparwyr rhag cyflogi rhieni maeth neu aelodau o'r cartref i rai rolau penodol o fewn y gwasanaeth maethu.

Rydym wedi penderfynu cadw'r cyfyngiadau ar aelodau o'r teulu. Mae'r cyfyngiad wedi'i gyfyngu i reoli, gwaith cymdeithasol neu unrhyw ganiatâd proffesiynol arall o fewn y gwasanaeth maethu, a'r bwriad yw atal gwrthdaro rhwng buddiannau lle bo'r unigolyn hwnnw yn byw gyda rhiant maeth sydd wedi'i gymeradwyo gan y darparwr hwnnw. Nid yw'n effeithio ar swyddi amhroffesiynol fel gweithwyr cefnogi, ac nid yw'n cau'r unigolyn hwnnw allan o weithio i ddarparwyr eraill; neu yn rhywle arall o fewn yr awdurdod lleol.

RHAN 12: Dyletswyddau Unigolion Cyfrifol

Cwestiwn 9: A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei nodi
3	5	5	0	14
11%	19%	19%	0%	52%

Crynodeb o'r ymatebion

Mynegwyd dau brif bryder ynghylch y ddarpariaeth a gynhwyswyd yn y Rhan hon. Yr oedd un yn ymwneud â'r gofyniad ar unigolion cyfrifol i ymweld â'r safleoedd o ble y darperir y gwasanaeth o leiaf unwaith bob tri mis (rheoliad drafft 61), a'r llall yn ymwneud ag amllder adolygiadau ansawdd gofal (rheoliad drafft 72). Yr oedd teimlad bod y gofyniad i ymweld bob tri mis yn anymarferol os oedd hyn yn golygu cwrdd â phob plentyn mewn lleoliad maethu gyda'r darparwr gwasanaeth hwnnw. Yr oedd teimlad bod y gofyniad i gynnal adolygiad o ansawdd gofal bob chwe mis yn anghymesur ac annheg oherwydd nad oes gofyniad ar awdurdodau lleol y gynnal y rhain ond unwaith y flwyddyn (rheoliad drafft 85). Nodwyd y bydd gan rai darparwyr annibynnol fwy o rieni maeth o fewn eu gwasanaeth nag awdurdodau lleol llai, hyd yn oed wrth ganiatáu ar gyfer swm y lleoliadau gofal gan berthnasau o fewn awdurdodau lleol. Yr oedd darparwyr gwasanaeth hefyd yn cwestiynu sut y byddai'r adolygiadau hyn yn ffitio gyda'r adrodd ar ansawdd a wneir ganddynt fel darparwyr fframwaith gyda Chonsortium Comisiynu Plant Cymru.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid yw'r Rheoliadau drafft yn ei gwneud yn ofynnol i'r unigolyn cyfrifol ymweld â phob plentyn mewn lleoliad maethu gyda'r darparwr gwasanaeth bob tri mis. Mae'r rheoliad yn ei gwneud yn ofynnol i'r unigolyn cyfrifol ymweld â'r lleoliad o ble y darperir y gwasanaeth, ac nid cartrefi rhieni maeth yw'r rhain, ond yn hytrach y swyddfeydd a'r safleoedd eraill y mae'r darparwr yn gweithredu ohonynt. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r unigolyn cyfrifol gwrdd ag aelodau o staff a gyda'r plant mewn lleoliadau maethu cyn amlled ag y pennir yn angenrheidiol ganddynt hwy, ond o leiaf bob tri mis. Fodd bynnag, nid yw'n nodi'n benodol bod yn rhaid iddynt gwrdd â phob aelod o staff na phob plentyn mewn lleoliad. Gallai fod yn sampl cynrychioliadol o staff a phlant y bydd yr unigolyn cyfrifol yn cwrdd â hwy. Fodd bynnag, er mwyn darparu eglurhad pellach o ran natur y gofyniad ar ddarparwyr i ymweld â phlant, rydym wedi newid y rheoliad i ddarllen "cwrdd â phlant" yn lle "cwrdd â'r plant".

Yn bwysicaf oll, yr hyn y mae angen i'r unigolyn cyfrifol ei gael yn ei le yw mecanwaith ar gyfer ceisio barn y plant mewn lleoliad ynghylch ansawdd y gwasanaeth a sut y gellid ei wella. Dylai fod rhaglen dreigl o ymgysylltu yn ei lle, gyda'r cyfarfod chwarterol ac ymweliadau yn chwarae rhan ynddi.

Rydym yn sylweddoli fod gan lawer o ddarparwyr gwasanaethau maethu brosesau sicrhau ansawdd yn eu lle, gan gynnwys y prosesau manwl drwy Fframwaith Maethu'r consortiwm 4C, y mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn aelodau ohono. Byddai hyn yn wir hefyd am ddarparwyr eraill mewn sectorau sydd, serch hynny, yn ddarostyngedig i'r gofyniad 6 misol. Rydym o'r farn y dylai fod yn bosibl i ddarparwyr ddefnyddio'r trefniadau sicrhau ansawdd presennol hyn er mwyn cyflawni'r gofynion gan effeithio ond ychydig arnynt hwy a byddwn yn archwilio ymhellach gydag Arolygiaeth Gofal Cymru sut y byddent yn disgwyl i ddarparwyr ddangos tystiolaeth o gydymffurfio gyda'r gofyniad hwn fel y gallwn fynegi hynny mewn canllawiau.

Teimlwn mai'r peth gorau o ran yr ymdrech gyffredinol i wella ansawdd er budd defnyddwyr gwasanaeth yw mynnu bod adolygiadau'n cael eu cynnal (mewn modd cymesur sy'n adeiladu ar systemau ansawdd darparwyr eu hunain) bob chwe mis a bod hyn yn bwysicach na dadleuon am faich ychwanegol.

Rydym yn nodi fod darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol wedi dadlau'n gryf am gysondeb rhwng y gofynion ar eu gwasanaethau hwy ac ar wasanaethau awdurdodau lleol. Rydym yn cydnabod y ddadl a gyflwynwyd ynghylch maint awdurdodau lleol a maint gwasanaethau annibynnol ac yn cael ei fod yn ein hargyhoeddi. O'r herwydd, rydym yn cytuno, er budd tegwch a chydaddoldeb rhwng darparwyr gwasanaeth a derbynwyr gwasanaeth, y dylai bod un amllder ar draws yr holl wasanaethau maethu. Gan ystyried ein casgliad bod dadleuon ynghylch gyrru gwelliannau ansawdd yn bwysicach na dadleuon ynghylch baich, ystyriwn ymhellach y dylid pennu mai bob chwe mis fydd yr amllder hwn.

RHAN 13: Dyletswyddau Rheolwyr Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol

Cwestiwn 10: A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei nodi
8	9	1	0	9
30%	33%	4%	0%	33%

Crynodeb o'r ymatebion

Ychydig o ymatebion a gafwyd ynghylch y Rhan hon. Nodwyd yr anghysondeb o ran amlder adolygiadau ansawdd gofal gan reolwyr maethu awdurdodau lleol a darparwyr annibynnol a gwnaed sylwadau ar hynny.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Fel yn ein hateb i gwestiwn 9, rydym yn nodi fod darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol wedi dadlau'n gryf dros gysondeb rhwng y gofynion ar eu gwasanaethau hwy ac ar wasanaethau awdurdodau lleol. Yn benodol, maent wedi nodi bod y ddadl a oedd yn tanlinellu'n rhannol ein penderfyniad i ymgynghori ar adolygiadau llai aml ar gyfer gwasanaethau awdurdodau lleol (bod gwasanaethau o'r fath yn gyffredinol yn fwy na gwasanaethau annibynnol, ac felly y byddai ganddynt fwy o adolygiadau i'w cynnal) yn wallus, pan gaiff y darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol mwyaf eu cymharu â'r awdurdodau lleol llai eu maint. Rydym yn canfod bod y ddadl hon yn argyhoeddi ac yn cytuno, er budd tegwch a chydaddoldeb rhwng darparwyr gwasanaeth a derbynwyr gwasanaeth y dylai fod un amlder ar draws yr holl ddarparwyr gwasanaethau maethu. Gan ystyried ein casgliad bod dadleuon ynghylch gyrru gwelliannau ansawdd yn bwysicach na dadleuon ynghylch baich, rydym yn ystyried ymhellach dylid pennu mai bob chwe mis fydd yr amlder hwn.

RHAN 14: Sefydlu Panelau Maethu

Cwestiwn 11: A yw'r darpariaethau yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei nodi
5	8	3	2	9
19%	30%	11%	7%	33%

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd cytundeb cyffredinol o ran y ddau brif newid a gyflwynwyd gan y Rheoliadau hyn: y gofyniad i gynnal rhestr ganolog o aelodau panelau; a chyflwyno proses asesu dau gam ar gyfer rhieni maeth arfaethedig.

Yr oedd pryder y gallai'r gofyniad i bob awdurdod lleol gynnal rhestr ganolog dorri ar draws datblygu gweithio rhanbarthol a hyrwyddir drwy'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol. O leiaf, ni ddylai'r gofyniad rwystro datblygu dulliau gweithredu rhanbarthol o ran recriwtio a chadw rhieni maeth awdurdodau lleol wrth i'r rhain ddatblygu dros amser.

Gofynnodd rhai darparwyr a ellid ymestyn uchafswm tymor aelodaeth aelodau panelau maethu (cyfanswm o dri thymor o dair blynedd, yn cael ei ddilyn gan fwch o o leiaf dair blynedd) fel ei fod yn bedwar tymor tair blynedd. Fel arall, awgrymwyd y gallai maint y tymor ddibynnu ar gyfanswm nifer y panelau yr oedd aelod yn gwasanaethu arnynt neu ar faint yr asiantaeth. Dadleuwyd y byddai hyn o gymorth penodol i ddarparwyr annibynnol llai o faint sydd ond yn cynnal nifer cyfyngedig o banelau'r flwyddyn.

Yr oedd sylwadau ynghylch y rhan yr oedd cyngor meddygol yn ei chwarae ar banelau, ac a ddylai'r rheoliadau nodi'n benodol y dylai pob panel gael cyngorydd meddygol, fel sy'n bodoli gyda phanelau mabwysiadu.

Codwyd y mater o sut yr oedd rhieni maeth sy'n berthnasau i'r plentyn yn cael eu hasesu mewn nifer o'r ymatebion ac yn y digwyddiadau ymgynghori. Y pwynt allweddol a wnaed oedd y caiff gofawyr sy'n berthnasau eu hasesu am eu haddasrwydd i ofalu am blentyn penodol neu grŵp o frodyr a chwiorydd, ond bod rhieni maeth prif ffrwd yn cael eu hasesu ar eu haddasrwydd i ofalu am unrhyw blentyn a gaiff ei leoli gyda hwy. Fodd bynnag, caiff y ddau fath o rieni maeth eu hasesu yn erbyn yr un meini prawf. Awgrymwyd y gellid mynd i'r afael â hyn drwy greu Atodlen newydd gyda Rheoliadau sy'n ymwneud yn benodol ag asesiadau gofal gan berthnasau, yn fwy unol â'r meini prawf a ddefnyddir i asesu gwarcheidwaid arbennig.

Holodd sawl ymatebydd pam fod cyfyngiad o 12 mis ar fynnu geirdaon gan ddarparwr gwasanaeth arall pan oedd rhiant maeth arfaethedig wedi bod yn rhiant maeth yn flaenorol. Yr oedd teimlad cryf y dylai geirda o'r fath gael ei geisio os oedd yr ymgeisydd wedi bod yn rhiant maeth yn flaenorol, erioed.

Awgrymwyd hefyd y dylai'r gwaharddiad ar bobl rhag bod yn rhieni maeth os oeddynt erioed wedi cyflawni un o'r troseddau penodedig pan yn 18 oed neu hŷn, gael ei ymestyn i gynnwys troseddau a gyflawnwyd cyn cyrraedd 18 oed. Yn yr un modd, awgrymwyd y dylai troseddau a gyflawnwyd gan unrhyw aelod o'r cartref dan 18 oed gael eu cynnwys, ac nid yn unig rhan 18 oed a throsodd fel sydd o fewn rheoliad drafft 91.

Roedd amrywiol awgrymiadau o ran beth allai gael ei gynnwys mewn canllawiau arfer da i gefnogi'r rhan hon o'r Rheoliadau. Yr oedd y rhain yn cynnwys:

- cyfansoddiad aelodaeth panelau
- prosesau recriwtio ar gyfer cadeiryddion ac aelodau panelau
- yr ystod o brofiad sydd ei hangen gan aelodau panelau
- cynefino a hyfforddiant ar gyfer aelodau panelau
- cefnogi, goruchwylio a gwerthuso aelodau panelau
- sut i gadw rhestr ganolog
- proses asesu dau gam
- yr hyn y dylai geirda gan wasanaeth maethu ei gynnwys fel isafswm.
- rhieni maeth yn symud ymlaen i asiantaethau eraill, neu o ddarparwr annibynnol at wasanaeth maethu awdurdod lleol
- gwneuthurwr penderfyniad mewn asiantaethau - pa nodweddion a phrofiad sydd eu hangen, pa wybodaeth i'w hystyried, a sut i gysylltu gyda'r panel.

Awgrymwyd hefyd y dylem ystyried ymchwil a gwaith sydd wedi ceisio barn plant a phobl ifanc ynghylch beth yn eu barn hwy sy'n gwneud rhiant maeth da.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym wedi ceisio sicrhau bod y Rheoliadau hyn yn addas ar gyfer y dyfodol er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn caniatáu ar gyfer dulliau newydd o ran gweithio'n rhanbarthol dan y Fframwaith Maethu Cenedlaethol. Nid yw'r gofyniad i bob awdurdod lleol greu rhestr ganolog o bobl addas i eistedd ar banelau maethu (rheoliad drafft 87) yn rhwystro dau neu fwy o awdurdodau lleol rhag creu rhestr ganolog gyffredin, ac yn ogystal â hyn, nid yw'r gofynion ynghylch aelodaeth panelau (rheoliad drafft 88) yn atal awdurdodau lleol rhag creu panelau rhanbarthol yn y dyfodol.

Rydym wedi ystyried y cais, gan ddarparwr gwasanaeth llai o faint, i gyfanswm y cyfnod y caiff unigolyn wasanaethau ar banelau maethu yn ddi-fwlch, gael ei ymestyn. Rydym wedi penderfynu ei bod yn briodol cadw'r cyfnod gwreiddiol o dri thymor o dair blynedd, a pheidio â gwneud unrhyw eithriadau. Credwn fod cyfnod o naw mlynedd o wasanaeth di-fwlch yn hael, ac yn caniatáu i holl aelodau'r panel ddatblygu ac ymarfer eu sgiliau a'u profiad, gan hefyd annog darparwyr gwasanaeth i gyflwyno aelodau newydd i banelau'n rheolaidd.

Rydym hefyd wedi ystyried a oes angen penodol i bob panel gael mynediad at gynghorydd meddygol. Ni allwn, drwy'r Rheoliadau hyn, osod gofynion ar fyrddau iechyd i ddarparu cynghorydd meddygol; ac mae'r Atodlen eisoes yn nodi'n benodol ei bod yn ofynnol i'r

wybodaeth y mae'n rhaid i ddarparwr gwybodaeth ei chael gynnwys manylion iechyd darpar-riant, yn cael eu hategu gan adroddiad meddygol.

Mae'r mater ynghylch sut y dylai gofalwyr sy'n berthnasau gael eu hasesu wedi bod yn rhan o drafodaethau ehangach y bu Llywodraeth Cymru yn eu cynnal gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill ynghylch natur gofal gan berthnasau. Rhoddwyd ffocws clir ar y materion hyn gan yr Adolygiad o'r Argyfwng Gofal¹⁰, a thrwy drafodaethau ynghylch y Fframwaith Maethu Cenedlaethol a'r cod ymarfer newydd ar Orchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig¹¹. Mewn egwyddor, mae Llywodraeth Cymru'n derbyn fod achos dros asesu gofalwyr maeth sy'n berthnasau yn fwy unol â'r modd y caiff gwarcheidwaid arbennig eu hasesu, o bosibl drwy gyfrwng Atodlen bwrpasol, yn hytrach nag yn erbyn yr un meini prawf â darpar rieni maeth prif ffrwd. Rydym yn bwriadu sefydlu gweithgor gofal gan berthnasau i ystyried hyn a materion eraill, gyda golwg ar gyhoeddi ymgynghoriad ar ofal gan berthnasau yn ystod gwanwyn/haf 2019. Os yn briodol, gallai hyn gynnwys ymgynghori ar Atodlen newydd i'r Rheoliadau hyn. Byddem yn disgwyl i unrhyw drefniadau newydd ddod i rym ym mis Ebrill 2020 ar y cynharaf. Hyd hynny, bydd y gofynion asesu ar gyfer pob math o rieni maeth yn y Rheoliadau hyn yn aros fel y cawsant eu drafftio, i ddod i rym ym mis Ebrill 2019.

Rydym yn derbyn, pan fo darpar riant maeth wedi bod yn rhiant maeth yn flaenorol gydag asiantaeth arall, fod y cyfyngiad amser ar gyfer mynnu geirada gan y darparwr arall hwnnw yn rhy fyr ar hyn o bryd. Mae profiad darpar riant maeth o fod yn rhiant (waeth beth fo'r cyd-destun) yn ystyriaeth berthnasol ar gyfer y panel maethu. O'r herwydd, rydym wedi cynyddu'r cyfyngiad amser o 12 mis i 3 blynedd, sydd yn gymesur yn ein barn ni.

Yn Rheoliadau 2003, nid yw'r gwaharddiad ar bobl i ddod yn rhieni maeth os ydynt hwy (neu aelodau o'u cartref) erioed wedi cyflawni un o'r troseddau penodedig pan yn 18 neu hŷn yn cynnwys troseddau a gyflawnwyd ganddynt cyn cyrraedd 18 oed. Pwrpas yr eithriad oed hwn oedd caniatáu disgrisiwn i awdurdodau lleol wneud penderfyniad i gymeradwyo person fel gofalwr maeth er gwaethaf y ffaith fod gan yr unigolyn hwnnw neu aelod o'i gartref, euogfarn neu rybudd yng nghyswllt trosedd benodedig a gyflawnwyd dan 18 oed, ar yr amod, yn dilyn asesiad risg llawn, bod yr awdurdod lleol o'r farn fod gwneud hynny er budd gorau'r plentyn. Er enghraifft, lle yr oedd plentyn yn perthyn i'r darpar ofalwr maeth neu i aelod o'i gartref, gallai fod cyfiawnhad dros ymarfer disgrisiwn i ganiatáu awdurdod lleol i asesu'r effaith gyffredinol ar lesiant y plentyn wrth ystyried a ddylid lleoli'r plentyn hwnnw gyda chyn droseddwr ifanc. Pe byddai'r awdurdod lleol o'r farn fod cyfiawnhad, er budd yr achos penodol hwnnw, i'r unigolyn faethu'r plentyn hwnnw, gallai gymeradwyo'r unigolyn fel gofalwr maeth ar y sail honno.

Yn dilyn ystyriaeth ofalus, rydym wedi penderfynu cadw'r eithriad oed hwn. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, mai dim ond eithriad i waharddiad awtomatig yw eithriad oed. Gall yr awdurdod lleol neu'r darparwr gwasanaeth a reoleiddir barhau i ymarfer eu disgrisiwn drwy'r broses gymeradwyo i benderfynu nad yw unigolyn yn addas i fod yn rhiant maeth, er gwaethaf y ffaith fod yr euogfarn neu'r rhybudd yng nghyswllt trosedd a gyflawnwyd pan oeddynt yn iau na 18 oed.

¹⁰ <https://frg.org.uk/involving-families/reforming-law-and-practice/care-crisis-review>

¹¹ <https://gov.wales/docs/dhss/publications/180328pt6en.pdf>

RHANNAU 15 a 16: Troseddau a Hysbysiadau Cosb

Cwestiwn 12: A yw'r ymagwedd a ddefnyddir mewn perthynas â throseddau yn y Rheoliadau drafft (rheoliad 14 mewn perthynas â darparwyr gwasanaethau maethu annibynnol a rheoliad 78 mewn perthynas ag unigolion cyfrifol) yn ddigonol a chymesur?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei nodi
7	7	4	1	8
26%	26%	15%	4%	30%

Cwestiwn 13: A yw'r ymagwedd mewn perthynas â hysbysiadau cosb, fel y dangosir hynny yn Atodiad A, yn ddigonol a chymesur? A yw'r lefelau cosb yn briodol?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei nodi
6	5	3	1	12
22%	19%	11%	4%	44%

Crynodeb o'r ymatebion

Er bod cydbwysedd yr ymatebion uchod yn awgrymu cytundeb bod yr ymagwedd a gymerir tuag at droseddau a chosbau yn gymesur, yr oedd y sylwadau ysgrifenedig yn mynegi pryder am ddiffyg cymesuredd rhai o'r darpariaethau – e.e. hyd at ddwy flynedd o garchar am beidio â diweddarau canllawiau'r gwasanaeth, peidio â rhoi gwybod i bobl benodol am newidiadau i'r datganiad o bwrpas, neu beidio â chwblhau'r adolygiad ansawdd gofal. Nodwyd bod y troseddau fel pe baent yn rhoi ffocws ar ofynion gweithredol yn hytrach nac ar ddiogelu plant neu ar dwyll. Credai rhai na ddylai'r cyfrifoldeb fod ar ysgwyddau'r unigolyn cyfrifol. Awgrymodd un ymatebydd ei fod yn wahaniaethol mai dim ond i ddarparwyr annibynnol yr oedd y cosbau hyn yn berthnasol. Awgrymodd un arall fod y dirwyon arfaethedig yn anghymesur o ran asiantaethau llain.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rhoddir sylw i'r pryderon uchod drwy bolisi Sicrhau Gwelliant a Gorfodi Arolygiaeth Gofal Cymru¹² sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer gweithdrefnau gorfodi na chaiff eu cychwyn ond pan fo diffyg cydymffurfiaeth wedi'i ganfod yn dilyn archwiliad. Bydd y darparwr

¹² <https://careinspectorate.wales/sites/default/files/2018-06/180601-securing-improvement-enforcement-policy-en.pdf>

gwasanaeth a'r unigolyn cyfrifol yn cael cyfle i unioni'r diffyg cydymffurfio cyn y rhoddir ystyriaeth i gamau gorfodi sifil (e.e. cyfyngiadau ar gofrestrriad y darparwr gwasanaeth) neu gamau gorfodi troseddol h.y. cosbau). Lle ceir diffyg cydymffurfio cyson, rhoddir ystyriaeth a ddylid cymryd camau gorfodi sifil cyn unrhyw gamau troseddol.

Lleoli gan sefydliadau gwirfoddol

Cwestiwn 14: Lleoli gan sefydliadau gwirfoddol. A yw ein dealltwriaeth o'r ffordd y mae Rhan VI Rheoliadau 2003 efallai wedi cael eu defnyddio'n ymarferol yn gywir, ac a yw ein casgliad bod y darpariaethau hyn yn afraid ac y gellir eu diddymu yn gywir?

Crynodeb o'r ymatebion

Cafwyd saith ymateb i'r cwestiwn. Roeddynt i gyd yn cytuno â'n hasesiad fod y darpariaethau hyn yn afraid ac y dylid eu diddymu.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Bydd y darpariaethau yn Rhan VI Rheoliadau 2003 yn awr yn cael eu diddymu o fis Ebrill 2019.

Cwestiwn 15: Byddem yn croesawu eich safbwyntiau ar ddyfodol adolygiadau annibynnol o ddyfarniadau (IRD) a'r Mecanwaith Adolygu Annibynnol (IRM). Wrth roi eich safbwyntiau, ystyriwch y cwestiynau canlynol:

A oes yna angen parhaus am adolygiadau annibynnol o ddyfarniadau mewn perthynas â maethu?

- **A fyddai yna unrhyw anfanteision i ddileu'r gofyniad i gynnal adolygiad annibynnol o ddyfarniadau ar gyfer maethu?**
- **A ddylem gadw'r trefniadau presennol ar gyfer adolygiadau annibynnol a gefnogir gan IRM? Rhowch resymau am eich atebion.**
- **A oes yna drefniadau newydd neu amgen ellid eu sefydlu ar gyfer adolygu dyfarniadau cymhwys ar gyfer maethu? Os oes, beth allai'r trefniadau hynny fod?**
- **Os ydych eisiau cynnig trefniadau newydd neu amgen, byddwch mor fanwl â phosib ynghylch sut y gallai'r trefniadau hynny weithio'n ymarferol, ac egluro sut y byddai unrhyw gynigion yn dangos tryloywder, annibyniaeth ac yn hyrwyddo maethu.**

Crynodeb o'r ymatebion

Mynegodd tri ymatebydd gefnogaeth ddigamsyniol i gadw'r IRM. Roedd y sylwadau'n cynnwys:

- Hanfodol cadw'r IRM, oherwydd gall penderfyniadau ddibynnu ar farn un gweithiwr cymdeithasol, heb atebolrwydd na chyfle i riant maeth / darpar riant maeth gyflwyno'u hachos yn llawn.
- Mae'r IRM o fudd i asiantaethau bychain na fyddai'n ei chael yn hawdd darparu gwasanaeth cwbl annibynnol i adolygu penderfyniadau.
- 'Wedi gwerthfawrogi'r IRM bob amser fel gwasanaeth wrth gefn, ac ni fyddwn yn hoffi ei weld yn diflannu er nad wyf erioed wedi ei ddefnyddio'.

Yr oedd eraill yn nodi'n glir nad oedd angen yr IRM bellach. Roedd y sylwadau'n cynnwys:

- Dim angen IRM. Gall rhieni maeth gael eu clywed a chael llais is bydd panel yr asiantaeth / awdurdod lleol yn gwneud eu gwaith yn dda. Yn lle, dylai pobl ddefnyddio'r weithdrefn gwyno briodol.
- Ddim wedi fy narbwylllo fod angen yr IRM. Gweithdrefnau cwyno (yn enwedig cam 3) yn cynnig adolygiad cadarn ac annibynnol.
- Nid yw'r IRM yn darparu gwerth am arian. Byddai'n well gennyf weld y gwasanaeth cyfryngu neu'r gwasanaeth cwynion yn cael eu defnyddio yn ei le.
- Mae'r model cyfredol yn fiwrocraidd ac yn rhy gymhleth. Dim angen parhaus. Dylid integreiddio'r broses i weithdrefnau cwyno awdurdodau lleol sydd wedi aeddfedu dros y blynyddoedd ers i'r IRM gael ei sefydlu.
- Efallai nad oes angen am IRD bellach, os yw'r prosesau a'r canllawiau'n gadarn ac yn cael eu gorfodi'n gywir.

- O brofiad personol, mae'r IRM yn aneffeithiol ac yn ymestyn y broses o derfynu. Ni all gynnig ymagwedd holistig tuag at gyrraedd argymhelliad.
- Dim angen parhau. Nid oes ganddo awdurdod ac ni fynd y tu hwnt i wneuthurwr penderfyniad yr asiantaeth. Gwasanaeth diangen o gostus sy'n rhoi gobaith ffug i rieni maeth.
- Yr angen am yr IRM yn mynd yn llai ac yn llai wrth i asesiadau fynd yn fwy cadarn. Dylai proses sicrhau ansawdd yr awdurdod lleol fod yn ddigon cadarn. Proses hirfaith a chostus. Mae angen cael proses well yn ei lle sy'n fyrrach ac yn lleihau straen.
- Anodd darparu gwybodaeth o 8 mlynedd o weithredu bod yr IRM yn cyflawni ei amcanion gwreiddiol.

Roedd eraill yn cydnabod yr angen am adolygiadau annibynnol neu am broses IRM gyfyngedig.

Roedd y sylwadau'n cynnwys:

- Angen cyfyngedig am y broses IRM. Angen sicrhau bod lleisiau rhieni maeth yn cael eu clywed.
- Angen rhyw fath o adolygiad annibynnol os bydd angen.
- Mae angen mecanwaith ar gyfer unioni pethau.
- Mae adolygiadau annibynnol yn galluogi tryloywder ac ymagweddau cyson. Mae'n rhoi hyder i'r broses yn ogystal â llwybr ar gyfer apeliadau sy'n annibynnol ar wneuthurwr y penderfyniad gwreiddiol.
- Mae angen cyfyngedig am IRD, ond nid yw penderfyniad yr IRM o unrhyw bwys i'r asiantaeth ac mae rhieni maeth yn aml yn teimlo nad yw eu sefyllfa mewn adolygiad yn gyfartal â phobl eraill yno. Dim ond edrych ar y riant maeth y mae adolygiadau, nid ar gyd-destun ehangach cyfrifoldebau'r asiantaeth.
- Os ceir gwared â'r IRM, rhaid cael rhywbeth arall amgen yn lle'r hyn a ddilëwyd.

Fodd bynnag, yr oedd gwahanol safbwyntiau ynghylch pa drefniadau allai gael eu rhoi yn eu lle i sicrhau fod adolygiadau annibynnol yn parhau. Fel yr awgrymwyd uchod, yr oedd llawer yn ffafrio defnyddio prosesau cwyno'r awdurdod lleol neu'r asiantaeth, gan nodi fod adolygiad annibynnol bellach yn rhan annatod o'r broses, yn enwedig yng ngham tri. Byddai hyn yn fanteisiol o ran cysondeb â rhannau eraill o wasanaethau cyhoeddus – e.e. teuluoedd yn gwneud cwynion am ddiogelu.

Yr oedd y dulliau eraill a awgrymwyd yn cynnwys:

- Cytundeb dwyochrog rhwng darparwyr gwasanaeth. Addas ar gyfer awdurdodau lleol, ond o bosibl ddim yn briodol i ddarparwr annibynnol arall glywed achos cystadleuydd.
- Adolygu ar sail ranbarthol drwy banel o awdurdod lleol cyfagos.
- Defnyddio'r cyfle a roddir gan restrau canolog o aelodau panel i helpu asiantaethau i adolygu'n fewnol, efallai gydag adolygiad gan banel cwbl ar wahân.
- Darparu gwasanaeth cyfryngu annibynnol i alluogi unigolion i symud ymlaen.
- Unigolyn â chymwysterau priodol yn adolygu ac yn gwneud argymhelliad i wneuthurwr penderfyniadau'r asiantaeth.

- Sefydlu Gwasanaeth Cynghori a Chyfyngu annibynnol sy'n adnodd ychwanegol ar gyfer rhieni maeth ac asiantaethau. O ddewis, wedi ei sefydlu ar sail ranbarthol. Darparu ymyrraeth gynnar a rhagweithiol wrth negodi datrysiad llwyddiannus.
- Gallai gwasanaeth cyfyngu fod yn ddarpariaeth amgen. Efallai y gallai'r Rhwydwaith Maethu ddarparu hyn, neu gellid defnyddio aelodau panel annibynnol fel cyfryngwyr.
- Gwasanaeth cefnogi cadarn ac annibynnol ar gyfer rhieni maeth sy'n gallu eiriol a herio ar eu rhan.

Yr oedd y pwyntiau eraill a wnaed yn cynnwys:

- Amhriodol ei ddisodli gyda rhywbeth llai trylwyr – byddai hyn angen gweinyddiaeth yn y cefndir hefyd ayb, felly ni fyddai'n arbed fawr o arian, ac yn llai cadarn.
- Gallai'r rheol 26 wythnos mewn achosion gofal fod y tu ôl i'r gostyngiad yn nifer yr achosion IRM gofal gan berthnasau, gan ei bod yn anodd galw adolygiad ynghyd mewn da bryd
- Dylai unrhyw fodel sy'n ei ddilyn ganfod ffordd o sicrhau bod safbwyntiau plant a phobl ifanc gyda phrofiad o fod mewn gofal yn cael eu hystyried.
- Os caiff yr IRM ei gadw, mae angen mecanwaith ar gyfer dysgu gwersi ac arfer da i sicrhau cysondeb ar draws darparwyr.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r IRM yn cwmpasu mabwysiadu (a datgelu mabwysiadu) yn ogystal â maethu. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar reoleiddio gwasanaethau mabwysiadu a'r IRM yng nghyswllt mabwysiadu mewn ymarfer ar wahân a gynhaliwyd o 4 Medi i 27 Tachwedd 2018. Unwaith y bydd dadansoddiad o'r ymgynghoriad hwnnw wedi'i gwblhau byddwn yn ymateb i'r ddau ymgynghoriad ar yr IRM ar yr un pryd, fel rhan o'r adroddiad cryno ar fabwysiadu.

Mae'n annhebygol y bydd penderfyniadau ynghylch dyfodol IRD a'r IRM yn cael eu gweithredu erbyn Ebrill 2019, sef y dyddiad cau i reoliadau maethu newydd ddod i rym. O'r herwydd, rydym yn bwriadu ail-wneud y darpariaethau ynghylch IRD, sydd yn eu hanfod yn trosglwyddo'r darpariaethau presennol yn Rheoliadau 2003 fel cynhwyswyd hwy yn y Rheoliadau drafft. Felly, byddwn yn gwneud trefniadau i ymestyn y contract presennol ar gyfer yr IRM, gyda Plant yng Nghymru, am flwyddyn arall (2019/20), a gall unrhyw newidiadau priodol a allai gael eu canfod, gael eu gweithredu o Ebrill 2020.

2.2 Cwestiynau ychwanegol

Cwestiwn 16: A yw'r costau/buddion/risgiau y cyfeirir atynt yn y ddogfen ymgynghori hon yn adlewyrchiad rhesymol o lefel effaith y Rheoliadau drafft? A oes yna unrhyw gostau/buddion/risgiau ychwanegol yr ydych yn teimlo na ystyriwyd neu na nodwyd?'

Crynodeb o'r ymatebion

Ychydig o ymatebwyr a wnaeth sylwadau penodol ar gostau, buddion a risgiau posibl y Rheoliadau drafft. Yr oedd y rhai a wnaeth yn tynnu sylw at y canlynol:

- goblygiadau o ran costau ar gyfer darparwyr llai yng nghyswllt darpariaeth yr iaith Gymraeg
- yr effaith ar ddarparwyr annibynnol o symud o adolygiadau ansawdd gofal blynyddol i adolygiadau bob chwe mis
- angen mwy o amser ac adnoddau ar gyfer gweithredu rhestr ganolog o aelodau panelau maethu (er y gellid lleihau hyn os caiff ei wneud ar sail ranbarthol)
- y potensial o fuddsoddi i arbed o ran datblygu capasiti i asesu a recriwtio a chadw rhieni maeth
- costau ychwanegol sylweddol y gofyniad i roi gwybod i wahanol bobl am newidiadau i'r datganiad pwrpas.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r materion hyn wedi eu nodi. Gellir gweld sylwadau pellach uchod, dan Ran berthnasol y Rheoliadau. Bydd y costau/buddion/risgiau y gwyddys amdanynt yn cael eu trafod yn fanylach yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a fydd yn cael ei gyhoeddi yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau a'r cod ymarfer pan gaiff y rhain eu cyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cwestiwn 17: A ydych yn credu y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn effeithio'n gadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig? Os ydych, pa rai a pham/pam ddim?

A ydych yn credu y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn effeithio'n negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig? Os ydych, pa rai a pham/pam ddim?

Crynodeb o'r ymatebion

Ychydig iawn o ymatebion a gafwyd i'r cwestiwn hwn. Yr oedd y rhai a ymatebodd yn fodlon nad oedd y Rheoliadau'n gwahaniaethu mewn unrhyw fodd yn erbyn grwpiau â nodweddion gwarchoddedig, ac y byddent yn cael effaith gadarnhaol neu niwtral yn y cyswllt hwn. Rydym wedi nodi'r cyfeiriadau at nodweddion plant yn y Rheoliadau, a'r angen i ystyried y rhain. Nododd un ymatebydd yr angen i fod yn ofalus sut yr ydym yn darparu gwybodaeth i blant anabl.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Rydym yn falch bod ymatebwyr yn ystyried fod y Rheoliadau drafft a'r canllawiau statudol / cod ymarfer yn cael effaith gadarnhaol neu niwtral ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig. Mae'r rheoliadau sy'n ymdrin â gwybodaeth (e.e. y datganiad o bwrpas a chanllawiau i blant) yn esbonio'n glir fod yn rhaid i wybodaeth gael ei darparu yn yr iaith ac yn y fformatau sy'n hygyrch i'r rhai a fydd yn ei defnyddio, ac mae'r canllawiau / cod ymarfer yn atgyfnerthu hyn. Gellir gweld rhagor o fanylion am ymagwedd Llywodraeth Cymru yn yr asesiad effaith integredig a baratowyd i gyd-fynd â'r Rheoliadau a'r canllawiau / cod ymarfer. Bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru maes o law.

Cwestiwn 18: Hoffem wybod beth yw eich safbwyntiau ar effeithiau'r cynigion hyn ar yr iaith Gymraeg, yn benodol mewn perthynas â

i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a

ii) peidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau ydych chi'n meddwl allai fodoli? Sut ellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

Hefyd, eglurwch sut yr ydych yn credu y gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig er mwyn:

i) creu effeithiau cadarnhaol neu gynyddu effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg, ac o ran peidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a

ii) sicrhau na effeithir yn niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac o ran peidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Crynodeb o'r ymatebion

Ychydig o ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau hyn. Gofynnodd un ymatebydd i'r canllawiau nodi'r gofynion sylfaenol yng nghyswllt yr iaith Gymraeg ar gyfer darparwyr gwasanaethau maethu, er bod un arall o'r farn bod y Rheoliadau a'r cod ymarfer wedi nodi'r safonau craidd sy'n berthnasol. Roedd peth pryder ynghylch cymesuredd, yn enwedig ar gyfer darparwyr gwasanaethau maethu llai o faint, gan gynnwys cost cynhyrchu gwybodaeth yn y Gymraeg. Awgrymodd un ymatebydd, yng nghyswllt sefydliadau llai gydag ond ychydig aelodau o staff, y dylid ystyried eu gallu i gael gafael ar siaradwyr Cymraeg yn hytrach na mynnu ar hyn fel gofyniad. Gofynnwyd a oedd darpariaeth i blant sy'n siarad Cymraeg gael eu lleoli gyda rhieni maeth sy'n siarad Cymraeg. Awgrymwyd hefyd y dylid rhoi mwy o anogaeth i ddarparu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd mewn panelau maethu.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid yw'r gofynion iaith Gymraeg yn y Rheoliadau a'r canllawiau / cod ymarfer yn newydd ac ni ddylent osod beichiau ychwanegol ar ddarparwyr y bydd disgwyl iddynt ddefnyddio dull cymesur o ran eu gweithredu. Gellir cael manylion pellach am ymagwedd Llywodraeth Cymru yn yr asesiad effaith integredig a baratowyd i gyd-fynd â'r Rheoliadau a'r canllawiau statudol / cod ymarfer. Bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru maes o law.

Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr

Rhif	Cyfrinachol Ydy / Na		Sefydliad / Ar ran
1.	✓		
2.		✓	Unigolyn
3.	✓		
4.		✓	AFA Cymru
5.		✓	Gofal Cymdeithasol Cymru
6.		✓	Grŵp Llywio Fframwaith Maethu Cenedlaethol Cwm Taf
7.	✓		
8.		✓	NEWFOCAS (Gwasanaethau Gofal Maeth Gogledd Ddwyrain Cymru)
9.	✓		
10.		✓	Nationwide Association of Fostering Providers
11.		✓	Comisiynydd Plant Cymru
12.		✓	Plant yng Nghymru
13.		✓	Cyngor Sir y Fflint
14.	✓		
15.		✓	WCVA
16.	✓		
17.		✓	Rheolwyr Tîm Maethu Gwent
18.		✓	Cyngor Trydydd Sector Caerdydd
19.		✓	Rheolwr Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer Gweithredu'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol.
20.	✓		
21.	✓		
22.		✓	Fostering Solutions
23.	✓		
24.	✓		
25.	✓		
26.			Y Rhwydwaith Maethu (Cymru)
27.	✓		